# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 28 Ionawr 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr John Pughe Jones, Ann Williams.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan ymestyn cydymdeimlad gyda Cyng Deryck Lewis a'r teulu ar golli ei fam, Mrs Vida Lewis, yn 101 oed yn ddiweddar.

**16.1. Cofnodion cyfarfod 17 Rhagfyr 2015.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.2. Materion yn codi o'r cofnodion.**
101.1 "Defibrillator". Yn dilyn trafodaeth cytunwyd rhaid cael mwy o wybodaeth.
32.1 Grantiau Llywodraeth Cymru Wledig. Cadarnhaodd Cyng Siôn Ifans ei fod ef ynghyd a Cyng Aled Griffiths a Cyng Gareth W Jones wedi cwrdd gyda Liz Trow o Gyngor Sir Powys. Bwriad y grant fydd gwella cyfleusterau i'r anabl yng Nhanolfan Glantwymyn a creu rhagor o llefydd parcio. Mae'n debyg mi fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned codi £4,000 tuag at cyfanswm o £20,000.
39.1 Prosiect Pont ar Ddyfi. Darllenodd y Clerc llythr gan Andrew Jones, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ynglyn y sefyllfa am y ddau barrier ar draws y ffordd fawr yn dilyn llifogydd. Derbyniwyd y llythr.
58.6 Ymgynghori Cynllunio yn Electronig. Darllenodd y Clerc e-bost gan Susan Simpson, Cyngor Sir Powys am y sefyllfa diweddaraf.
68.4 Twll yn y ffordd ger Bryn Goronwy. Cadarnhawyd fod y twll wedi cael ei thrwsio.

**16.3. Cynllunio.**
P/2015/1153. "Electricity Substation" ger Aberffrydlan, Llanwrin. Cytunwyd cefnogi.
P/2016/0002 & 0003. Estyniad tu cefn i Hendre, Cemmaes. Cytunwyd cefnogi.

**16.4. Eitemau i'w talu.**
Dim.

**16.5. Torri gwair ym mynwetydd Darowen a Llanbwrin.**
Cytunwyd hysbysu am y gwasanaeth yma yn Y Blewyn Glas.

**16.6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
6.1. Ysgolion. Mynegodd Cyng Aled Griffiths pryder am effaith y newid yn yr oedran cychwyn yn yr ysgol gynradd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys gyda gofidion am y newid yma.
6.2. Cyfarfod Rhanbarthol Un Llais Cymru. Cafwyd adroddiad gan y Clerc.
6.3. Fforwm Cleifion. Cafwyd adroddiad gan Cyng Gwenfair Davies.
6.4. Cadarnhawyd fod Cynghorwyr Gwenfair Davies, Derryck Lewis a William Owen wedi mynd i gyfarfod yn Y Plas, Machynlleth trefnwyd gan Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth. Mae'n debyg bod y sefyllfa yn gwella gyda rhagor o gwasanaethau yn dychwelyd i Ysbyty Bronglais.

**16.7. Gohebiaeth.**
7.1. E-bost gan Mr Stephen Tudor yn diolch am y parti ym Mis Rhagfyr.
7.2. E-bost gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ynglyn a Chystadleuaeth y Pentref Mwyaf Dymunol yn Sir Drefaldwyn.

7.3. Llythr gan Russell George AS ynglyn a Cymorthfeydd Gaeaf 2016.
7.4. E-bost gan Un Llais Cymru ynglyn a dathliad penblwydd 90 y Frenhines.
7.5. E-bost gan Bron Brawf Cymru ynglyn y gwasanaeth ym Maes Parcio, Machynlleth.
7.6. E-bost gan Llywodraeth Cymru ynglyn a Gwariant Adran 137 ar gyfer 2016-17.
7.7. E-bost gan Lee Evans, Cyngor Sir Powys ynglyn arolwg ar phroblemau baw cwn. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir gyda sylwadau am nifer o lefydd yn y Cymuned lle mae yna problem gyda baw cwn.
7.8. E-bost gan Rebecca Witcomb, Cyngor Sir Powys ynglyn enw datblygiad newydd ym Mhentref Commins Coch. Cytunwyd cefnogi yr enw Goledd Dyfi.
7.9. E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys ynglyn y gwasanaeth ailgylchu a sbwriel.
7.10. E-bost gan Peter Morris, Cyngor Sir Powys ynglyn Cynllyn Datblygu Lleol Powys 2015.

**16.8. Unrhyw fater arall.**
8.1. Eglurodd Cyng Derryck Lewis a Cyng Aled Griffiths fod yna problem gyda hollt ar draws y ffordd is law i Brynuchel, Cwmlline. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trosglwyddo lluniau o'r problem i swyddogion Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod y problem wedi cael sylw dros dro, ond mae'r problem yma yn un cymleth ac mae yn parhau i cael sylw.
8.2. Eglurodd Cyng Huw Williams fod dau ffos yng Ngheinws angen sylw.
8.3. Eglurodd Cyng Geraint Wigley fod angen ystyried creu mannau pasio ar y ffordd i fewn i Darowen o gyferiad Abercegir.
8.4. Eglurodd Cyng William Owen fod angen rhoi sylw i ffordd Llanwrin ar phob achlysur mae Pont ar Ddyfi yn cau.
8.5. Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod yna problem gyda dymchwel y ffens ger yr hen Ty Orsaf yng Nglantwymyn.
8.6. Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod yna problem gyda bagiau sbwriel ar y ffordd gefn ger Abergwibedyn rhwng Cemaes ac Aberangell.
8.7. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod angen dod a sylw pob cynghorydd i'r "Code of Conduct".
8.8. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod angen bin sbwriel ar y ffordd gefn rhwng Cemaes a Phont Rhydygwial.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 25 Chwefror 2016.**